**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: JJ/PO/0039/2024

Jayne Bryant MS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

6 Chwefror 2024

Annwyl Jayne,

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddiolch i chi a'ch Pwyllgor am yr ymateb ffurfiol i'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar am eich ymateb manwl a chynhwysfawr i'n cynigion.

Rwy'n croesawu'r naw argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor a bydd fy swyddogion yn eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r dadansoddiad ehangach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 16 Ionawr.

Nodaf yr adborth cyffredinol gan y Pwyllgor i sicrhau amddiffyniadau cryfach i'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru. Rwy'n eich sicrhau fy mod yn rhannu eich pryderon ynghylch profiad digartrefedd ymhlith pobl ifanc sy'n gadael gofal a chredaf fod y Papur Gwyn a'r ddeddfwriaeth ddilynol yn gyfle pwysig i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a thrawsnewid profiad y bobl ifanc hyn wrth iddynt drosglwyddo o ofal tuag at fyw'n annibynnol. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn gwella ein gwaith o ran rhianta corfforaethol a sut rydym yn sicrhau mynediad i lety diogel, addas i'n helpu i ddod ag unrhyw ganfyddiad neu brofiad bod gofal yn cyfateb â "llwybr rhagweladwy" tuag at ddigartrefedd ac yn dod â chylchoedd digartrefedd mynych i ben.

Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth i ni ddatblygu cynigion y Papur Gwyn a chyflwyno deddfwriaeth.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.